

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2023

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Defnyddio system Blueteq yn ehangach mewn gofal eilaidd

Dyddiad yr Adolygiad: 1 Ebrill 2024

I'w weithredu gan:

Angen gweithredu erbyn: 1 Ebrill 2023

Gyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr
Cyllid, Prif Fferyllwyr, Byrddau Iechyd
Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Anfonwr: Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:

Darren Ormond, Fferylliaeth a Phresgripsiynu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Rhif ffôn: 03000 255621

Dogfennau Amgaeedig: **1. CYFARWYDDYDAU ADRODD GAN FYRDDAU IECHYD
LLEOL AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG AM GYFLWYNO MEDDYGINIAETHAU
NEWYDD I'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU 2023**

1. Yn 2018, buddsoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer prynu system cyffuriau cost uchel *Blueteq* i wella'r trefniadau ar gyfer monitro gwariant ar feddyginiaethau cost uchel a gomisiynir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut y mae'r meddyginiaethau'n cael eu defnyddio.
2. Ar ôl i'r system gael ei gweithredu'n llwyddiannus gan y Pwyllgor, mae'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno y dylid defnyddio *Blueteq* ar gyfer amrywiaeth ehangach o feddyginiaethau er mwyn helpu i wella'r trefniadau llywodraethu ariannol, a sut y mae gwybodaeth am ddefnyddio meddyginiaethau yn cael ei chasglu, ym meysydd blaenoriaeth y GIG.
3. Mae'r meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu cynnwys yn y rhestr o feddyginiaethau a gymeradwyir gan AWMSG yn cael eu nodi yn: System Cyffuriau Cost Uchel *Blueteq* - Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (gig.cymru). Dylid ystyried bod y meddyginiaethau hyn yn gam cyntaf yn y broses o ddefnyddio'r system yn ehangach, gyda meddyginiaethau eraill yn cael eu hychwanegu yn y dyfodol.
4. Bydd manylion llawn yr holl feddyginiaethau sy'n cael eu cynnwys wrth weithredu *Blueteq* yn ehangach yn cael eu cynnal gan AWMSG.

Y camau nesaf

5. Oni bai bod cyfarwyddyd i weithredu fel arall, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – cyfarwyddiadau 2023 i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer adrodd ar gyflwyno meddyginiaethau newydd yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.
6. Bydd y gwaith o weithredu'r system yn cael ei gefnogi gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.